# Adroddiad Ymchwiliad Craffu: Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd (Gwasanaeth Cadeiriau Olwyn)

Mabwysiadwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal ar 12 Medi 2019.

**Aelodau'r Gweithgor:**

Cyng. Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd)

Cyng. John Brynmor Hughes

Cyng. R Medwyn Hughes

Cyng. John Pughe Roberts

Cyng. Angela Russell

**Swyddogion:**

Mari Wynne Jones, Uwch Reolwr Gwasanaethau Pobl Hŷn ac Anabledd Corff

Bethan Richardson, Swyddog Cefnogi Busnes y Cyngor (Swyddog Arweiniol)

Glynda O'Brien, Swyddog Cefnogi Aelodau (hyd 31/8/18)

Annes Sion, Swyddog Cefnogi Aelodau

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

# CYNNWYS


| | | Tud. |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair y Cadeirydd | 3 |
| 2. | Cyflwyniad | 4 |
| 3. | Nod yr Ymchwiliad Craffu | 4 |
| 4. | Crynodeb ac Argymhellion | 5 |
| 5. | Methodoleg | 7 |
| 6. | Cefndir | 7 |
| 7. | Rhoi’r Unigolyn yn Ganolog? | 10 |
| 8. | Ymateb i Anfodlonrwydd | 20 |
| 9. | Datblygu’r Gwasanaeth i’r Dyfodol | 24 |
| 10. | Atodiadau | |
| | Atodiad 1 – Cyfranwyr | 27 |
| | Atodiad 2 – Briff yr Ymchwiliad | 28 |

## 1. Rhagair y Cadeirydd

Drwy gynnal yr ymchwiliad craffu hwn rydym wedi codi'r llen ar y gwasanaeth sydd ar gael i ddarparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd, yn blant ac oedolion. Dau lwybr sy'n agored i'r sawl sydd angen cadair olwyn yn yr hir dymor, sef drwy wneud cais i'r Gwasanaeth Iechyd, neu drwy hunan-ariannu cadair a'i phrynu drwy gwmni preifat.

Gan mai ein bwriad oedd ymchwilio i weld a oedd angen gwella'r ddarpariaeth bresennol rydym wedi dewis canolbwyntio ar y maes ble mae'n bosib i ni wneud gwahaniaeth, ac felly wedi edrych ar y ddarpariaeth drwy'r Gwasanaeth Iechyd yn unig.

Wrth i ni wrando ar unigolion a thrafod eu profiadau gyda nhw fe ddaeth yn amlwg yn fuan iawn eu bod yn hynod falch fod y ddarpariaeth o gadeiriau olwyn yn fater sy'n derbyn sylw. Carwn ddiolch yn fawr i'r unigolion hynny sydd wedi cyfrannu ac yn wir i bawb arall sydd wedi rhoi o'u hamser i'r gwaith o gynnal yr ymchwiliad hwn.

Mae ein diolch yn fawr i'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, am eu cydweithrediad wrth i ni gynnal yr ymchwiliad, ac am eu parodrwydd i gydweithio er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r cyfrifoldeb dros graffu gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Fyrddau Iechyd yng Nghymru yn perthyn i'r Cynghorau Iechyd Cymuned, ac yn y pen draw i Lywodraeth Cymru. Gan fod gan y sefydliadau hyn y cyfrifoldeb a'r arbenigedd i ymchwilio yn fanwl i faterion sy'n ymwneud â maes yr ymchwiliad craffu hwn, rydym am rannu yr adroddiad hwn â hwy. Byddwn, wrth gwrs, yn barod iawn i gydweithio ag unrhyw sefydliad sydd am barhau i ymchwilio i ddarpariaeth cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i'r dyfodol.

Cyng. Dewi Wyn Roberts.

Medi 2019.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Yn dilyn cyflwyno Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Peter Read i gyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2017, fe benderfynodd y Cyngor:

> “Bod y Cyngor yn cyfeirio’r cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i’w ystyried ar gyfer y rhaglen craffu”.

2.2 Yn unol â phrosesau craffu’r Cyngor, cyfeiriwyd y mater at y Pwyllgor Craffu Gofal a benderfynodd mai cynnal Ymchwiliad Craffu fyddai’n bodloni’r cynnig orau. Sefydlwyd Weithgor o’r Pwyllgor Craffu er mwyn arwain yr Ymchwiliad sy’n cynnwys rhai o aelodau’r Pwyllgor Craffu a dau Gynghorydd arall, sydd yn eu tro yn cael eu cefnogi gan swyddogion y Cyngor.

## 3. Nod yr Ymchwiliad Craffu

3.1 Cododd y Rhybudd o Gynnig uchod o dystiolaeth gan drigolion o Wynedd bod anfodlonrwydd gyda rhai agweddau o’r ddarpariaeth cadeiriau olwyn presennol. Nod yr Ymchwiliad Craffu, yn unol â’r briff a welir yn Atodiad 2, yw ateb y cwestiynau canlynol:

3.1.1 A ellir tystiolaethu bod yr **unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog** yn y broses o asesu a darparu cyfarpar addas, ac yn cael eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw? (tud 10-19)

3.1.2 Os oes **anfodlonrwydd neu gwynion** am y gwasanaeth presennol, a ydynt yn cael eu cyfarch yn foddhaol? (tud 20-23)

3.1.3 Os oes angen, sut mae modd **gwella’r gwasanaeth i’r dyfodol**? (tud 24 – 26)

## 4. Crynodeb ac Argymhellion

4.1 Mae'r ymchwiliad hwn yn edrych ar wasanaeth sy'n cael ei ddarparu o dan ambarél y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, ac mae yna sefydliadau sy'n bodoli yn bwrpasol er mwyn craffu ar eu gwaith, ac er mwyn gwrando ar lais defnyddwyr y Gwasanaeth Iechyd. Mae'n addas ac yn bwrpasol felly bod sefydliadau megis Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn ystyried y materion sydd wedi codi drwy'r ymchwiliad craffu hwn ac yn gweithredu yn ôl yr angen.

4.2 Mae elfennau ychwanegol o gefnogaeth i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn cael eu darparu gan sefydliadau eraill yn ogystal, sef Awdurdodau Lleol ac asiantaethau yn y trydydd sector yn bennaf. Rydym hefyd wedi ymchwilio i elfennau o'r gefnogaeth atodol hon ac wedi cynnig sylwadau neu argymhellion ble y credwn bod cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth bresennol.

4.3 <u>Argymhellion:</u>

4.3.1 Bod yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cyfeirio yr adroddiad hwn at sylw Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, gan ofyn iddynt ystyried yr angen i wneud cais i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad cenedlaethol o addasrwydd y ddarpariaeth cadeiriau olwyn o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth.

4.3.2 Bod yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cyfeirio yr adroddiad hwn at sylw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

4.3.3 Bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol o berfformiad y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd, yn unol â'i bolisi, er mwyn iddo fedru cael ei graffu'n gyhoeddus.

4.3.4 Bod y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd (GYCS) yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael ffurflen neu system gyfeirio electronig y mae'n bosib i bawb sy'n rhan o'r broses gyfeirio ei dilyn. Os nad yw hyn yn bosib, yna dylid cytuno ar drefn gyfathrebu sy'n sicrhau bod GYCS yn rhoi gwybod yn syth i'r unigolyn a'r sawl sy'n ei gyfeirio bod y cyfeiriad wedi ei dderbyn, a beth yw'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer darparu'r gadair neu offer.

4.3.5 Bod y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd yn parhau i gydweithio â sefydliadau eraill (ee. meddygon teulu, nyrsys lleol, therapyddion galwedigaethol yn y gymuned) er mwyn rhannu gwybodaeth am asesiadau o anghenion unigolyn am gadair olwyn. Dylai hyn osgoi dyblygu gwaith i staff a'r angen i gynnal asesiadau ar wahân ar gyfer darparu offer eraill, ee. cadeiriau cawod. Dylai hefyd gyflymu'r broses o ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i'r defnyddiwr gwasanaeth.

4.3.6 Bod y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Chyngor Gwynedd (a Chynghorau eraill os ydynt yn dymuno) yn parhau i gydweithio er mwyn ceisio goresgyn y rhwystr presennol o orfod cael asesiadau ar wahân ar gyfer anghenion yr unigolyn sydd angen cadair olwyn, a'r angen am addasiadau i gartref yr unigolyn.

4.3.7 Dylid ystyried ganlyniadau cynllun newydd sy'n cael ei dreialu yn ne Cymru i hyfforddi rhai staff arbenigol yn y gymuned er mwyn cynnal yr asesiadau Lefel 2 (cadeiriau arbenigol neu bŵeredig). Os y bydd yn llwyddiannus dylid ystyried ei ymestyn yn genedlaethol.

4.3.8 Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylid rhannu gwybodaeth ac arfer dda drwy'r Clystyrau Cymunedol (gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio ar lefel leol). Dylai gwybodaeth ynghylch pa staff o ba sefydliad sydd wedi eu hyfforddi i gynnal asesiadau Lefelau 1 a 2 gael eu rhannu'n lleol ymysg yr holl sefydliadau sy'n cefnogi unigolion mewn cadeiriau olwyn, a hynny er mwyn cyflymu'r broses gyfeirio er lles y defnyddiwr gwasanaeth.

4.3.9 Yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylai'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd barhau i gydweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn cynnig cefnogaeth fydd yn cyfoethogi llesiant yr defnyddiwr gwasanaeth.

4.3.10 Dylid ystyried hyfforddi nyrsys lleol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, gofalwyr ayb i fonitro'r defnydd o gadeiriau ac offer arbenigol er mwyn ceisio rhagweld problemau gyda'r offer, neu i adnabod os oes angen ei addasu i ateb anghenion yr unigolyn, a rhoi gwybod yn brydlon i'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd am unrhyw anghenion yn amserol.

4.3.11 Dylai nyrsys lleol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, gofalwyr ayb roi gwybod i GYCS yn brydlon os ydynt yn ymwybodol bod cadair neu offer yn ddiffygiol neu ddim yn cael ei ddefnyddio bellach, er mwyn iddynt gael eu casglu a'u hail-ddefnyddio gan eraill sydd mewn angen.

4.3.12 Gan fod hyfforddiant eisoes ar gael i ofalwyr ar ddefnydd o'r cadeiriau olwyn, dylid hyrwyddo a gwneud yn fawr o hynny.

## 5. Methodoleg

5.1. Cynhaliwyd 4 cyfarfod o'r Gweithgor a sefydlwyd i arwain yr Ymchwiliad Craffu rhwng Awst 2018 ac Awst 2019 er mwyn derbyn a dadansoddi tystiolaeth, a chytuno ar argymhellion.

5.2. Yn ychwanegol at y cyfarfodydd hyn o'r Gweithgor bu Aelodau a Swyddogion yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol yn ôl yr angen er mwyn canfod gwybodaeth bellach ar gais y Gweithgor.

5.3. Mae'r wybodaeth gefndirol a'r dystiolaeth o brofiadau unigolion wedi eu casglu mewn sawl dull: cyfarfodydd wyneb yn wyneb, holiaduron, sgyrsiau ffôn, ebyst, adroddiadau neu bolisïau cyhoeddus, ac adroddiadau a gomisiynwyd yn bwrpasol i'r ymchwiliad. Mae diogelwch gwybodaeth a hawl unigolion i breifatrwydd yn hanfodol bwysig, ac mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â chanllawiau GDPR wrth gwrs. O'r herwydd, nid ydym wedi manylu ar amgylchiadau rhai unigolion er mwyn gwarchod eu preifatrwydd. Nid ydym wedi atodi'r tystiolaethau hyn yn eu cyfanrwydd i'r adroddiad hwn, ond yn hytrach wedi dyfynnu ohonynt pan fo'n berthnasol.

5.4. Nid ydym ychwaith yn honni bod yr adroddiad hwn am roi darlun cyflawn o brofiadau holl drigolion Gwynedd sy'n ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae cyfrifoldeb arnom i ddefnyddio ein hadnoddau'n gyfrifol, ac ymchwilio i faterion ble mae hi'n bosib i ni wneud gwahaniaeth i fywydau trigolion Gwynedd. Nid ydym, er enghraifft, wedi cyffwrdd ar y ddarpariaeth gan y sector preifat nac ar brofiadau unigolion o dderbyn gwasanaeth gan gwmnïau o'r fath.

5.5. Y Gwasanaeth Iechyd, drwy'r Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd, yw prif ddarparwyr cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd, yn blant ac yn oedolion. Mae'n gwbl gywir eu bod yn rhwym wrth reolau diogelu data ac felly nid oedd gennym ddull digyfaddawd o gysylltu â phob un unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth ganddynt. Penderfynwyd felly i ddewis sampl fechan o ddefnyddwyr cadair olwyn i'w holi un-i-un am eu profiadau, sef yr unigolion oedd eisoes yn hysbys i wasanaethau'r Cyngor.

5.6. Rydym hefyd wedi casglu tystiolaeth o brofiadau unigolion drwy lygaid staff proffesiynol sy'n gweithio i wasanaethau cymdeithasol mewn Awdurdodau Lleol.

5.7. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd i'r ymchwiliad hwn. Mae rhestr o'r cyfranwyr yn Atodiad 1.

## 6. Cefndir

6.1. Yng Nghymru, mae darpariaeth prosthetig a chadeiriau olwyn i'r sawl sydd eu hangen yn y tymor hir (6 mis a mwy) yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd (GYCS) (Posture and Mobility Service (PAMS)). Mae'r Gwasanaeth hefyd yn aml yn dal i gael ei adnabod o dan ei hen enw ac acronym, sef ALAS (Artificial Limb and Appliance Service). Mae GYCS yn

darparu ystod o wasanaethau, megis atodiadau prosthetig, cymorth cyfathrebu neu gadeiriau olwyn. I bwrpas yr adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar ddarpariaeth cadeiriau olwyn ac offer eistedd arbenigol (clustog) yn unig.

6.2. Mae GYCS yn wasanaeth cenedlaethol sy'n cael ei gomisiynu gan Bwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru (PGIAC), sydd yn ei dro yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy gydweithrediad y Byrddau Iechyd.

6.3. Mae'r GYCS yn gyfrifol am asesu anghenion yr unigolyn a chynnig y cyfarpar mwyaf addas, ac yna danfon, casglu, trwsio a chynnal yr offer gyhyd ag y bydd yr unigolyn ei angen.

6.4. Nod GYCS yn eu geiriau eu hunain yw:

> 'Cynnig gwasanaeth cyson a theg i bobl Cymru sydd ag anabledd hir-dymor neu barhaol. Mae'r GYCS yn ymrwymedig i gynnig gwasanaeth adferiad ardderchog i bobl ag anabledd. Ein nod yw amlhau gallu i'r eithaf a lleihau anabledd.'

6.5. Mae gan y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd 3 canolfan– yn Wrecsam, Caerdydd ac Abertawe – ac mae'r ddarpariaeth i drigolion Gwynedd fel arfer yn cael ei gynnig drwy'r ganolfan yn Ysbyty Bryn y Neuadd yn Llanfairfechan. Er hyn mae'n rhaid i bob cleient newydd gael eu cyfeirio at y brif ganolfan yn Wrecsam. Mae GYCS gogledd Cymru yn gwasanaethu dwy ran o dair o ardal ddaearyddol Cymru, gan ymestyn i'r de gyn belled â Llanfair ym Muallt, a thraean o boblogaeth y wlad.

6.6. Ar hyn o bryd mae tua 14,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth cadeiriau olwyn neu ddarpariaeth prosthetig wedi eu cofrestru gyda'r ganolfan yn Wrecsam.

6.7. Yn ystod 2018 roedd 515 o gyfeiriadau am y ddarpariaeth hon yn dod gan drigolion o Wynedd – 466 ohonynt yn oedolion a 49 yn blant. Mae hyn gyfystyr â 11.5% o'r cyfeiriadau a dderbyniodd GYCS ar gyfer y flwyddyn.

6.8. <u>Asesiad ar gyfer cadair olwyn</u>

6.9. Cam cyntaf y broses o gael cadair olwyn addas gan y GYCS yw i'r unigolyn gael eu hasesu ar gyfer y cyfarpar fwyaf addas gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau perthnasol. Gall nifer o broffesiynau gwahanol fod yn gwneud y gwaith hwn, megis meddygon teulu, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaeth y Bwrdd Iechyd neu therapyddion galwedigaethol Cyngor Gwynedd.

6.10. Mae yna ddau fath o asesiad gwahanol gan ddibynnu ar natur anabledd yr unigolyn –

6.11. <u>Asesiad lefel 1</u> – ar gyfer **cadair olwyn y gellir ei gweithio â llaw**. Gall yr asesiad fwy sylfaenol hwn gael ei gynnal gan nifer o'r proffesiynau a enwir uchod, gyda'r gweithiwr proffesiynol yn cwblhau'r asesiad a chyfeirio'r cais am offer ymlaen i'r GYCS.

6.12. Asesiad lefel 3 – achosion mwy cymhleth/cynhennus gyda'r angen am **offer arbenigol neu gadeiriau pŵeredig**. Mae'r asesiadau yma yn cael eu cynnal gan therapyddion galwedigaethol a thechnegwyr arbenigol sy'n gyflogedig gan GYCS yn unig.

6.13. Fel y nodwyd uchod, unwaith y bydd yr asesiad wedi ei gwblhau a'i gyfeirio at GYCS, bydd darparu a chynnal a chadw'r cyfarpar o dan ofal y corff hwnnw.

6.14. Mae'r holl gadeiriau olwyn ac offer perthnasol sy'n cael eu cynnig i drigolion yng Nghymru bron yn ddi-ffael yn dod o'r rhestr o offer cydnabyddedig sydd wedi ei gytuno a'i gaffael yn genedlaethol drwy'r PGIAC. 'Specialised Services Service Specification: All Wales Posture and Mobility Services' yw'r polisi sy'n llywio'r maes ac mae copi i'r weld ar wefan y Pwyllgor yma.

6.15. Mae yna 26 math gwahanol o gadair ar y rhestr hon, sydd i fod i ateb holl ofynion plant ac oedolion. Mae 19 ohonynt yn gadeiriau sy'n gweithio â llaw a 7 yn gadeiriau arbenigol neu bŵeredig.

6.16. Unwaith mae'r gadair wedi ei harchebu ar gyfer yr unigolyn yna mae'r cyfrifoldebau am yr offer yn pasio i drydydd parti sydd wedi eu comisiynu o dan gytundeb i GYCS gogledd Cymru.

6.17. Y contractwr cyfredol (Atgyweiriwr Cydnabyddedig) yw Ross Care Ltd. Mae'r contractwr hwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth i gynnal nifer o agweddau o'r gwasanaeth, sy'n cynnwys danfon yr offer, atgyweirio'r offer wrth gyflwyno a chasglu'r offer nad oes eu hangen mwyach. Ar gyfartaledd, mae'r contractwr yn cynnal 13,000 o weithgareddau ar ran y gwasanaeth bob blwyddyn.

6.18. Mae Atgyweiriadau Cyntaf, h.y. atgyweiriadau sy'n cael eu cwblhau ar yr ymweliad cyntaf, yn destun datblygiad targed perfformiad newydd ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, cyfradd yr atgyweiriad cyntaf cyfartalog yw 80.4%.

6.19. Mae Canolfan GYCS Caerdydd wedi dewis darparu a thrwsio yr holl gadeiriau ac offer drwy eu gwasanaeth mewnol eu hunain. Roedd y gwasanaeth yma'n arfer cael ei drefnu yn allanol ond roeddynt yn credu ei fod yn fwy cost effeithiol ac yn cynnig gwell gwasanaeth i'r cleient iddynt ddod â'r gwaith i mewn i'r ganolfan. Mae'r bosib i gleient gysylltu â'r gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos i roi gwybod am broblemau gydag offer.

6.20. Mae'r holl wybodaeth uchod yn cyfeirio at y broses o ddarparu cadair olwyn drwy'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, sydd wrth gwrs yn ddi-dâl. Os, am ba bynnag reswm, nad yw unigolyn am gyfeirio ei hun at y Gwasanaeth Iechyd, yna'r unig opsiwn arall yw i drefnu a hunan-ariannu'r broses o dderbyn cadair neu offer drwy ddarparwr preifat.

## 7. Yr Unigolyn yn Ganolog?

7.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi:

> ‘Bydd gan bobl reolaeth dros y math o gymorth sydd ei angen arnynt, a byddant yn cael llais, fel partner cyfartal, yn y penderfyniadau a wneir am y gofal a’r cymorth a gânt’.

7.2 Mae’r neges hon y glir, felly, sef bod angen i ddarparwyr gofal yng Nghymru sicrhau bod yr unigolyn yn ganolog yn y broses o gynllunio darpariaeth ar eu cyfer.

7.3 Er nad yw’r Ddeddf hon yn uniongyrchol berthnasol i’r Gwasanaeth Iechyd, gan fod y ddarpariaeth o gadeiriau olwyn pwrpasol yn greiddiol i lesiant yr unigolyn, yn ogystal ag atebion anghenion clinigol, yna mae’r Ddeddf hon yn gwbl berthnasol i’r ymchwiliad hwn.

7.4 Dyma grynhoi y dystiolaeth a gasglwyd gan amrywiol gyfranwyr o’u profiadau o gael eu hasesu am gadair olwyn yn y lle cyntaf, ac yna’r gofal dilynol ar eu cyfer hwy a’r offer:

**7.5 Profiad Unigolion –**

7.6 Derbyniwyd dystiolaeth drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb neu sgyrsiau ffôn gydag unigolion sy’n defnyddio’r gwasanaeth, sy’n wybyddus i’r Cyngor, ac sy’n fodlon rhannu eu profiad.

7.7 <u>Person 1:</u>

> Yn dilyn damwain car mae gan y person barlys o’r canol i lawr. Yn dilyn gadael yr ysbyty bu’n aros 8 mis i gael asesiad ar gyfer cadair olwyn arbenigol, gan aros 3 mis pellach i dderbyn y cyfarpar. Roedd yna faterion eraill, ar wahân i ddarparu cadair olwyn, yn codi o amgylch y gofal i’r unigolyn yn ogystal.

7.8 <u>Person 2:</u>

> Mae’r person angen cadair wedi ei theilwra’n arbennig gan bod gan y person barlys o’r canol i lawr. Bu’r person yn aros am dros flwyddyn am addasiad i’r gadair, ac yn ystod y cyfnod hwnnw fe ddatblygwyd broblemau iechyd cymhleth.

7.9 <u>Person 3:</u>

> Bu i’r person hwn fod yn yr ysbyty am 3 mis yn derbyn triniaeth am friw pwysau (pressure sore) a gododd gan nad oedd y cyfarpar yn addas. Roedd yna faterion eraill, ar wahân i ddarparu cadair olwyn, yn codi o amgylch y gofal i’r unigolyn yn ogystal.

7.10 Yn ychwanegol i’r uchod cafwyd 5 ymateb i holiadur a grëwyd i holi defnyddwyr cadeiriau olwyn o Wynedd am eu profiadau o gael eu hasesu ar gyfer cadair. Gofynnwyd y cwestiwn “Pan gaethoch chi eich asesu am gadair olwyn ydych chi’n teimlo bod eich barn chi am yr hyn yr oeddech ei angen

wedi ei ystyried yn llawn? Os mai ‘Na’ oedd eich ateb, a fedrwch chi esbonio beth nad oeddech yn hapus yn ei gylch os gwelwch yn dda?”

7.11 Roedd 2 berson yn hapus gyda’r gwasanaeth ond fe nododd 3 unigolyn nad oedden nhw’n credu bod eu anghenion wedi cael eu hystyried. Er hyn roedd un unigolyn oedd wedi dweud ei fod yn hapus â’r gwasanaeth yn dweud hefyd nad oedd yn hapus ei fod wedi aros 6 mis am y gadair.

7.12 Dyma grynodeb o’r sylwadau -

7.12.1 “Wnaethon nhw ddim gwrando ar nifer o ystyriaethau”.

7.12.2 “Ar sawl achlysur rydw i wedi gorfod gwrthod rhyddhau’r gadair sydd wedi torri tan fy mod yn cael ail gadair”.

7.12.3 “Doedd symud y gadair i mewn i’r car, a sut oeddwn i’n gallu symud o fewn y car, ddim yn cael eu hystyried”.

7.12.4 “Mae’r detholiad o gadeiriau pŵeredig yn gyfyngedig”.

7.12.5 “Ddim yn hapus gyda’r sêt”.

7.12.6 “Mae cysylltu gyda ALAC yn anodd. Methu mynd drwodd atynt”.

7.13 Roedd 2 o’r unigolion yn dweud bod yr olwynion blaen (casters) yn is na’r safon ddisgwyliedig.

7.14 Roedd 2 unigolyn yn dweud nad oedd offer llywio’r gadair yn gweithio’n iawn neu ddim yn ateb eu gofynion. Roedd enghraifft o un unigolyn oedd â mwy o amhariad ar un fraich na’r llall, ond er hyn fe osodwyd offer llywio’r gadair ar yr ochr wanaf, oedd yn groes i ddymuniad yr unigolyn. Roedd yr unigolyn arall yn dweud nad oedd yr offer llywio’n gweithio’n iawn gan achosi i’r gadair wyro i un ochr neu droi mewn cylchoedd. Doedd dim modd symud yr offer llywio i un ochr chwaith gan olygu nad oedd yn bosib symud y gadair o dan fwrdd neu gownter isel.

7.15 Gofynnwyd y cwestiwn “Oes agweddau o’r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn wedi eich plesio? Beth ydynt?”

7.16 Fe wnaeth 2 unigolyn ddweud bod y “staff yn ddymunol a barod i helpu” ac fe nododd un arall “mae rhai o’r staff yn drylwyr iawn a phroffesiynol (ond nid pawb)”.

7.17 <u>Crynhoi</u> –

7.18 Mae 6 allan o’r 8 unigolyn sydd wedi rhannu eu profiadau yn nodi bod elfennau o’r gwasanaeth neu’r cyfarpar yn broblemus. Problemau cyffredin sy’n codi yw nad yw’r cadeiriau yn addas i’w anghenion, a bod trafferthion wrth gyfathrebu â GYCS. Ar y llaw arall mae sawl unigolyn yn canmol agwedd a pharodrwydd staff i’w cynorthwyo.

7.19 <u>Argymhellion Perthnasol:</u>

7.20 4.3.1 – 4.3.12.

**7.21 Profiadau Staff Awdurdodau Lleol o fewn dalgylch GYCS Gogledd Cymru**

7.22 Derbyniwyd dystiolaeth yn ysgrifenedig oddi wrth staff sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol yng nghynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Dinbych a Wrecsam.

7.23 <u>Cyngor Gwynedd</u>

7.24 Mae Therapyddion Galwedigaethol sydd yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd yn un o'r proffesiynau sydd â'r wybodaeth a sgiliau priodol i asesu unigolion ar gyfer cadeiriau olwyn Lefel 1.

7.25 Nid yw pob unigolyn sydd angen asesiad ar gyfer cadair olwyn yn dod i sylw'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant ychwaith. Gall nifer o broffesiynau eraill megis meddygon teulu, ffisiotherapyddion a Therapyddion Galwedigaethol y Bwrdd Iechyd gyfeirio yn uniongyrchol i GYCS, ond mae'n debygol iawn bod staff yn Cyngor yn cefnogi'r unigolion hyn mewn ffyrdd eraill – ee. addasiadau i'r cartref, gofal cartref.

7.26 Dyma brofiadau Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd o gefnogi trigolion y sir sydd angen cadair olwyn yn yr hir dymor. Ers cychwyn y gwaith ar yr ymchwiliad hwn mae staff Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor wedi cwrdd â staff GYCS er mwyn rhannu gwybodaeth a phryderon, ac felly mae'r sylwadau isod yn cyfeirio hefyd at rai cynlluniau sydd eisoes wedi eu cytuno er mwyn datblygu neu wella'r gwasanaeth i unigolion yn y dyfodol.

7.27 Sylwadau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd (Tîm Derwen) –

7.27.1 Mae Therapyddion GYCS yn asesu anghenion yr unigolyn ac gyfer cadair olwyn ac yn eu darparu, ac mae Therapyddion Tîm Derwen yn sicrhau unrhyw ddarpariaeth neu addasiadau sydd eu hangen i gartref yr unigolyn. Mae yna gydweithio effeithiol rhwng y ddau sefydliad i rannu gwybodaeth am y ddarpariaeth fwyaf effeithiol i'r unigolyn.

7.27.2 Nid oes gan Tîm Derwen wybodaeth am broblemau wrth ddarparu gwasanaeth i blant a phobl ifanc anabl Gwynedd, nac yn ymwybodol o unrhyw gwynion, nac yn ymwybodol os oes plant neu bobl ifanc Gwynedd ar restr aros GYCS am gadair olwyn.

7.28 Sylwadau Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant -

7.28.1 Rhestr aros o hyd at 40 wythnos ar gyfer asesiadau ymddaliad a chadeiriau trydan.

7.28.2 Bu i un unigolyn gyda chyflwr MS ddisgwyl 18mis am gadair olwyn

7.28.3 Bu i unigolyn a nam golwg gael ei drin yn anfoesgar

7.28.4 Un unigolyn wedi aros 13 mis i gael newid plat troed ar ei gadair olwyn

7.28.5 Ychydig neu ddim dilyniant gan GYCS yn dilyn darparu cadair olwyn.

7.28.6 Therapydd wedi cysylltu â GYCS i ymholi ynghylch achos. Hysbyswyd y therapydd fod yr unigolyn ar wythnos 30 o'r rhestr aros. Nid oeddynt yn gallu rhoi amcan amser ynghylch pryd fyddai'r gadair olwyn yn cael ei darparu.

7.28.7 Pryderon am y trafferthion i gysylltu hefo GYCS, methu cael ateb dros y ffôn, diffyg cyfathrebu

7.28.8 GYCS yn gwrthod y cais am gadair olwyn ond ddim yn hysbysu'r unigolyn na'r cyfeirydd.

7.28.9 Nid yw'r Cyngor yn derbyn cydnabyddiaeth gan ALAS eu bod wedi derbyn cyfeiriadau.

7.28.10 Meddygon teulu ddim yn cwblhau'r ffurflen sydd ei angen a'i dychwelyd i'r gwasanaeth cadeiriau olwyn yn amserol

7.29 Daeth yn amlwg yn ystod yr ymchwiliad hwn hefyd nad oedd gennym ni fel Cyngor broses yn ei lle i gadw cofnod a thracio cyfeiriadau oedd yn cael eu pasio ymlaen gennym, ar ran unigolion, i GYCS. Fel rhan o'r broses ehangach o greu 'hwb' cymunedol sy'n dod â gweithwyr meysydd cymdeithasol a iechyd at ei gilydd, mae'r Cyngor yn cydweithio â'r holl sefydliadau eraill i greu trefniadau diogel er mwyn rhannu gwybodaeth. Rydym wrthi, felly, yn cynllunio sut fedrwn ni gadw cofnod a thracio cyfeiriadau i GYCS fel rhan o'r gwaith ehangach hwn.

7.30 Fel y nodwyd, mae camau gweithredu wedi eu cytuno er mwyn ceisio goresgyn rhai o'r rhwystrau uchod, ac mae'r manylion i'w gweld yn Adran 9.

7.31 <u>Profiadau Cynghorau Môn, Conwy, Dinbych a Wrecsam</u>

7.32 Roedd y profiadau isod yn gyffredin i fwy nag un Cyngor:

7.33 Cyfathrebu â GYCS yn anodd i'r Cynghorau ac i unigolion – ee. aros am 20 munud ar y ffôn, gorfod llythyru er mwyn trefnu asesiadau.

> "...rhoddwyd adborth anffurfiol gan Therapyddion Galwedigaethol a defnyddwyr gwasanaeth, yn dweud ei bod yn anodd cael gafael ar GYCS a bod yn rhaid iddynt aros am amser maith i gael adolygiad."

7.34 Amser aros am asesiad ar gyfer cadair bŵeredig yn rhy hir, ac yna amser aros pellach i dderbyn y gadair (tua blwyddyn).

> "...yn ymwybodol fod yna oedi hir i unigolion sydd yn cael eu cyfeirio am 'powered wheelchairs' neu unrhyw 'accessory' i'r cadeiriau yma. Therapyddion yn ymwybodol o'r effaith andwyol mae hyn yn cael ar eu clientau."

7.35 Staff y Cyngor (therapyddion galwedigaethol ayb) wedi derbyn hyfforddiant Lefel 1 gan GYCS. Un Cyngor ar hyn o bryd yn edrych ar ddatblygu hyfforddiant ar y cyd â GYCS ar gyfer asesu am 'postural seating' arbenigol i blant.

7.36 Mae 2 Gyngor yn annog unigolion i wneud cais am gadair i GYCS drwy lwybrau eraill ar wahân i'r Cyngor – ee. meddyg teulu/nyrs ardal/ffysiotherapydd, oni bai bod therapyddion y Cyngor eisoes yn gweithio gyda'r unigolyn.

7.37 Mwy nag un yn dweud bod y criteria am beidio asesu am gadair electronig/arbenigol tan bod asesiad amgylcheddol (yr angen i wneud newidiadau i gartref yr unigolyn) wedi ei wneud yn broblemus. Ond mae un Cyngor yn dweud eu bod wedi cydweithio â GYCS i gynnal yr asesiad amgylcheddol, tra bod Cyngor arall yn dweud bod GYCS wedi gwrthod cydweithio.

7.38 Er gwybodaeth, dyma gefndir y sefyllfa uchod:

7.39 Mae cymal 4.3.5 o 'CP59 All Wales Posture and Mobility Services Specification' yn nodi:

> Mae amgylchedd cartref y cleient wedi derbyn asesiad risg sy'n briodol ar gyfer cadair olwyn bweredig, ac mae'n rhaid i'r holl addasiadau fod wedi'u cwblhau cyn gallu darparu offer.

7.40 <u>Sylwadau perthnasol eraill gan y Cynghorau–</u>

7.41 Roedd un enghraifft o gydweithio effeithiol rhwng staff sawl asiantaeth (GYCS, Cyngor, ysgolion) er mwyn darparu cadeiriau olwyn ac offer arbenigol i blant yn ardal Wrecsam:

> "rydym yn edrych ar hyfforddiant ar y cyd ar gyfer rheoli ystum plant a chanddynt anghenion cymhleth iawn, a'r modd y maent yn eistedd. Mae hyn wedi arwain at rannu gwybodaeth asesu i sicrhau bod pwy bynnag sy'n gweithio gyda phlentyn yn gallu dechrau'r asesiad am gadair arbenigol, a bod hyn yn cael ei rannu gyda chydweithwyr er mwyn osgoi dyblygu. Er enghraifft, os yw'r ffisiotherapydd ysgol yn dechrau'r asesiad, bydd hyn yn cael ei rannu gyda GYCS a Therapyddion Galwedigaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol, a allai fod yn edrych ar gadeiriau yn y cartref."

7.42 Dim ond un Cyngor oedd yn cadw'r wybodaeth am sawl unigolyn oedd wedi eu cyfeirio am asesiad cadair olwyn at GYCS.

7.43 <u>Crynhoi –</u>

7.44 Doedd yr un o'r 5 Cyngor yn dweud eu bod yn credu bod angen newid neu wella'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i blant. Yn wir, roedd 1 Cyngor eisoes yn cydweithio â GYCS er mwyn ystyried rhannu trefniadau hyfforddi.

7.45 Mae profiad ail-law staff y Cynghorau o oedolion yn cael eu hasesu ac yna'n derbyn cadair olwyn yn dangos bod lefel eithaf uchel o anfodlonrwydd am y gwasanaeth.

7.46 Rhestrau aros hir am gadeiriau olwyn arbenigol neu bŵeredig, ymhell y tu hwnt i'r targed o 26 wythnos.

7.47 Trafferthion cyfathrebu â GYCS gan arwain at oedi wrth drefnu asesiadau, ac ansicrwydd i'r unigolyn ac unrhyw staff sy'n ei gefnogi gan nad oes diweddariad ar y cais i'w gael.

7.48 Peidio cydlynu asesiadau amgylcheddol gyda'r asesiad o anghenion yr unigolyn ei hun yn achosi oedi i ddarparu'r gadair olwyn.

7.49 Argymhellion Perthnasol:

7.50 4.3.4, 4.3.5, 4.3.6, 4.3.7, 4.3.8, 4.3.9, 4.3.10, 4.3.11.

**7.51 Profiad Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd Gogledd Cymru (GYCS)**

7.52 Nod y Gwasanaeth yw:

- Gweithio mewn partneriaeth â Defnyddwyr Gwasanaeth a'u cynrychiolwyr
- Asesu anghenion ystum a symudedd pobl o bob oedran sydd ag amhariad neu gyflwr meddygol parhaol sy'n effeithio ar eu gallu i gerdded ac a fydd angen cadair olwyn am fwy na chwe mis
- Rhagnodi a darparu datrysiadau cefnogaeth symudedd ar olwynion ac ystum i gwrdd ag anghenion hanfodol
- Hyrwyddo gweithrediad, cyfforddusrwydd ac annibyniaeth gan hefyd leihau'r risg o gymhlethdodau ac ymgorffori'r "model cymdeithasol" o anabledd.

7.53 Mae'r nod cyntaf uchod yn clymu â'r cwestiwn yn yr ymchwiliad hwn - A ellir tystiolaethu bod yr unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog yn y broses o asesu a darparu cyfarpar addas, ac yn cael eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw?

7.54 Mae'n addawol, felly, bod y GYCS yn credu mai drwy gydweithio â defnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr y mae darparu'r gwasanaeth gorau i'r unigolyn hwnnw.

7.55 Partneriaethau

7.56 Mae GYCS hefyd wedi bod yn datblygu partneriaethau dros y 2 flynedd ddiwethaf gyda sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector eraill. Mae'r partneriaethau hyn yn rhoi'r cyfle i'r Defnyddwyr Gwasanaeth gael mynediad i gyfleoedd a allai fod o fudd i iechyd cymdeithasol, corfforol a meddwl.

7.57 Dyma grynhoi'r partneriaethau sydd ar waith:

- Chwaraeon Anabledd Cymru: proses gyfeirio weithredol gan staff clinigol, y Gwasanaeth yn hybu grwpiau, chwaraeon a chlybiau; ymweliadau safle wythnosol gan Swyddogion Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru.
- Coleg Cambria/Prifysgol Glyndŵr: rhannu gwybodaeth a hyrwyddo cyfleoedd.

- Adran Gwaith a Phensiynau: Mae cyngor ar gael am fudd-daliadau; cynlluniau lleol i hyrwyddo cyflogaeth; ymweliadau safle gan Ymgynghorydd Cyflogaeth i'r Anabl am gyngor un i un.

7.58 Hunan-arfarnu

7.59 Mae’r GYCS yn hunan-arfarnu eu gwaith yn barhaus, ac yn paratoi adroddiadau ar eu perfformiad yn fisol – mae gwybodaeth bellach am y prosesau yma yn Adran 8.

7.60 Mae’r targedau y mae pob un o 3 canolfan GYCS yng Nghymru yn adrodd arnynt yn cael eu cytuno ar lefel genedlaethol gyda’r PGIAC, ond nid oes yr un o’r targedau yma yn mesur profiad yr unigolyn sy’n derbyn gwasanaeth. Eto, gweler 8.2 yn Adran 8.

7.61 Er hyn, mae GYCS gogledd Cymru yn casglu barn defnyddwyr gwasanaeth drwy’r dulliau canlynol:

7.61.1 **Grŵp Budd-ddeiliaid Gwasanaeth Iechyd Arbenigol Cymru:** Mae'n rhoi adborth yn weithredol o safbwynt Ddefnyddwyr Gwasanaeth, ac mae'n cymryd rhan weithredol mewn datblygiadau i'r gwasanaeth a gosod y dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y gwasanaeth.

7.61.2 **Holiaduron Profiad Defnyddwyr**: Cesglir y rhain yn ôl polisi'r Bwrdd Iechyd, ac maent ar gael ar bob safle ar ffurf papur ac electronig. Yn ogystal, mae gan daflenni gwybodaeth y gwasanaethau god QR er mwyn gallu rhoi adborth dros y we. Mae gan yr holl Ddefnyddwyr Gwasanaeth y cyfle i gwblhau'r ffurflenni hyn ar ôl rhyngweithio gyda'r gwasanaeth. Yna, mae'r wybodaeth hon yn cael ei choladu a'i hadolygu gan Dîm Ymgysylltu Defnyddwyr Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd, a chaiff ei adrodd yn ôl i'r gwasanaeth.

7.61.3 **Prosiect Ymchwil**: Mae'r gwasanaeth yn cyfranogi mewn prosiect ymchwil sy'n edrych ar fesurau deiliant Symudedd ac Ansawdd Bywyd. Mae'r prosiect yn datblygu mesur deilliant a adroddir gan gleifion ar ansawdd bywyd symudedd. Mae hwn yn brosiect tair blynedd y mae'r gwasanaeth yn gobeithio fydd yn darparu dangosydd allweddol ar gyfer deilliant yr offer a'r gwasanaeth y mae'r cleient wedi'i brofi.

7.61.4 **Holiadur Gwasanaeth Atgyweiriwr Cydnabyddedig**, proses adborth

7.62 Mae’r asiantaeth sy’n darparu a thrwsio cadeiriau, Ross Care, yn monitro barn cleientiaid am y gwasanaeth sy’n cael ei gynnig ac yn adrodd ar hynny i GYCS.

7.63 Dyma ganlyniadau holiaduron bodlonrwydd y blynyddoedd diwethaf –

**Cwynion fesul blwyddyn - data hyd at Chwefror 2019.**

| | |
|---|---|
| 2019 | 0 |
| 2018 | 1 |

| | |
|---|---|
| 2017 | 5 |
| 2016 | 2 |
| 2015 | 4 |

**Canmoliaethau fesul blwyddyn**

| | |
|---|---|
| 2019 | 3 |
| 2018 | 5 |
| 2017 | 6 |
| 2016 | 2 |
| 2015 | 11 |

**Canlyniadau arolygon blaenorol – data hyd at Chwefror 2019.**

| | Excellent | Very Good | Good | Satisfactory | Poor | Very poor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Standard of repair | 72% | 24% | 4% | 0 | 0 | 0 |
| FSE Care | 72% | 24% | 4% | 0 | 0 | 0 |
| Admin Service | 48% | 24% | 20% | 8% | 0 | 0 |
| Response speed | 68% | 8% | 20% | 4% | 0 | 0 |

7.64 Mae Ross Care yn gweithio i darged o drwsio cadair neu offer mewn argyfwng o fewn 24 awr, a tharged o 3 diwrnod ar gyfer pob gwaith trwsio arall.

7.65 Y tu hwnt i'r trefniadau o gyflwyno adroddiadau misol ar y targedau cenedlaethol, mae GYCS yn asesu eu gwaith i chwilio am gyfleoedd i wella. Meysydd y maent wedi eu hadnabod sydd â lle i wella ynddynt ar hyn o bryd yw:

7.65.1 Perfformiad oedolion i darged 'RTT' cenedlaethol (y targed o 26 wythnos ar gyfer yr holl broses rhwng cyflwyno cais am asesiad i ddarparu'r gadair neu'r offer pwrpasol).

7.65.2 Amrediad yr offer a ddarparwyd - canolbwyntio ar amrediad i sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael eu cyfarch. Trafodaeth genedlaethol ar amrediad cyffredinol y cynnyrch.

7.65.3 Safonau Ansawdd - datblygu gwybodaeth llwybr defnyddwyr

7.65.4 Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth - datblygu'r Gwasanaeth ymhellach drwy'r wybodaeth a dderbyniwyd o ymgysylltiad.

7.66 <u>Materion eraill –</u>

7.67 Problem sy'n gyffredin i fwy nag un o'r unigolyn sydd wedi cyfrannu eu profiadau yw eu bod wedi datblygu briw pwysau (pressure sore).

7.68 Mae'r Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr yn nodi:

> Bydd hyd at hanner y bobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn datblygu briw pwysedd ar ryw bwynt yn ystod eu bywyd, a achosir yn rhannol gan gadeiriau olwyn anaddas neu gadeiriau olwyn sydd ag offer gwael. Gall

y gost o drin achosion gwaethaf briw pwysedd fod cymaint â'r cyfanswm am 16 triniaeth am glun newydd.

7.69 Mae'n annhebygol, felly, ei bod yn bosib cael gwared yn llwyr â'r posibilrwydd o ddatblygu briw pwysau, ond mae angen i'r cadeiriau olwyn a'r clustogau arbenigol sy'n cael eu darparu i unigolion fod yn addas i bwrpas fel bod y risg hwn gyn ised â phosibl.

7.70 Mae gan bob un o 3 Canolfan GYCS yng Nghymru offer gwahanol sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer 'pressure mapping', sef mesur corff person er mwyn cynllunio'r glustog unigryw ar ei ch/gyfer. Er bod yr offer yn wahanol mae GYCS yn sicrhau eu bod i gyd yn rhoi yr un canlyniadau.

7.71 Crynhoi –

7.72 Mae'r targedau i fesur perfformiad yn canolbwyntio ar ddata yr amser a gymer i ddarparu neu drwsio offer, ac nid o anghenraid yn mesur os ydi'r offer hwnnw yn ateb gofynion yr unigolyn. Mae gwaith wedi cychwyn i ddatblygu targedau newydd yn y maes hwn, felly dylid cadw golwg ar y gwaith hwnnw.

7.73 Mae GYCS gogledd Cymru wedi dechrau casglu data am farn defnyddwyr gwasanaeth am y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sy'n cael eu cynnig yn uniongyrchol gan GYCS (ar wahân i wasanaeth Ross Care), felly dylai ganlyniadau'r gwaith hwn fwydo i mewn i ddatblygu targedau a chynlluniau gwaith newydd i'r dyfodol.

7.74 Argymhellion Perthnasol

7.75 4.3.1 – 4.3.12.

**7.76 Profiad Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cyngor Gwynedd**

7.77 Mae gan Gyngor Gwynedd Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd sy'n rhannol gyflogedig gan y Cyngor a Chwaraeon Anabledd Cymru. Mae'r swyddog yn cydweithio'n agos gyda GYCS yn eu canolfan yn Llanfairfechan, ac felly'n rhan o'r cynllun partneriaethu fel y disgrifir gan GYCS yn 7.57 uchod.

7.78 Drwy'r cynllun partneriaethu mae'n bosib i staff GYCS yn Llanfairfechan gyfeirio eu defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw yng Ngwynedd at y Swyddog Chwaraeon anabledd, sydd yn ei dro yn gwneud cyswllt â'r defnyddwyr er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt a'u cefnogi i gymryd rhan yn unrhyw rai o'r cyfleoedd chwaraeon sy'n agored iddynt.

7.79 Cyhoeddwyd ganlyniadau ymgynghoriad chwaraeon anabledd Gwynedd fis Mai 2018, a dyma rai o ganlyniadau yr ymgynghoriad hwnnw:

- 65% yn credu mai un o'r prif fanteision o chwaraeon yw gwell ffitrwydd a symudedd
- 60% yn credu mai un o'r prif fanteision o chwaraeon yw cymdeithasu a chyfarfod pobl

- 29% yn credu mai diffyg hyder oedd y rhwystr personol mwyaf rhag eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon
- Rhwystr oedd yn effeithio’r nifer fwyaf (29%) rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon oedd diffyg trafnidiaeth.

7.80 Daeth yn amlwg o’r ymgynghoriad hwn bod cynnig cyfleoedd chwaraeon i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yng Ngwynedd yn llesol i’w iechyd corfforol a meddwl fel ei gilydd. Mae’r Swyddog Chwaraeon Anabledd yn sicr o’r farn bod rhai o ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yng Ngwynedd y mae’n gweithio â hwy wedi elwa o gael cefnogaeth i warchod eu lles a’u iechyd meddwl, drwy chwaraeon, ochr yn ochr â’r gofal iechyd y maent yn ei dderbyn drwy GYCS.

7.81 Dylid nodi hefyd nad ydi GYCS yn darparu cadeiriau olwyn neu offer arbenigol sy’n galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae nifer o ddefnyddwyr yn gallu defnyddio’r cadeiriau olwyn â gânt drwy GYCS er mwyn cymryd rhan mewn rhai chwaraeon, ond os oes angen addasiadau neu gadeiriau gwahanol yna mae’n rhaid ceisio am grantiau drwy sefydliadau chwaraeon neu hunan-ariannu.

7.82 <u>Crynhoi –</u>

7.83 Mae’n ymddangos bod y cynllun partneriaethu rhwng GYCS, Chwaraeon Anabledd Cymru a Chyngor Gwynedd yn arwain at gynnig mwy o gyfleoedd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yng Ngwynedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasol, sydd yn ei dro yn gwella eu llesiant.

7.84 Mae’r berthynas waith rhwng y 3 sefydliad yn ymddangos yn effeithiol, sydd yn ei dro yn golygu bod llai o rwystrau yn ffordd y defnyddiwr gwasanaeth wrth iddynt geisio canfod gwybodaeth neu gefnogaeth.

7.85 Mae’r ddarpariaeth chwaraeon sy’n cael ei gefnogi gan y bartneriaeth hon wedi ei gynllunio gydag anghenion yr unigolyn yn ganolog.

7.86 <u>Argymhellion Perthnasol</u>

7.87 4.3.5, 4.3.8, 4.3.10, 4.3.11, 4.3.12.

## 8. Ymateb i anfodlonrwydd

8.1 Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) sy'n gyfrifol am gomisiynu gwaith y GYCS yng Nghymru, a nhw hefyd felly sy'n monitro er mwyn sicrhau bod yn gwaith yn cael ei ddarparu i lefel safonol.

8.2 Dyma'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA / KPI) sy'n cael eu defnyddio, ac mae'r 3 canolfan drwy Gymru yn darparu'r wybodaeth ar gyfer y targedau isod i'r PGIAC yn fisol.

| Dangosydd Allweddol | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth o dderbyn cyfeiriad am offer | Mesur amser rhwng derbyn y cyfeiriad a chydnabod hynny i'r defnyddiwr a'r sawl sy'n cyfeirio | Cydnabyddiaeth i'w anfon o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn ffurflen gyfeirio wedi ei chwblhau'n gywir |
| Ffurflen gyfeirio addas | Mesur canran y cyfeiriadau sy'n cale eu derbyn sydd â ffurflen gyfeirio adds wedi ei chwblhau | Targed yn cael ei ddefnyddio er mwyn gwella'r broses gyfeirio o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth yn hytrach na'r darparwr |
| Yr amser a gymer i ddarparu cadair olwyn sy'n gweithio â llaw ar ôl derbyn ffurflen gyfeirio | Mesur yr amser rhwng derbyn ffurflen gyfeirio wedi ei chwblhau'n gywir a darparu cadair olwyn sy'n gweithio â llaw | 90% o'r cadeiriau olwyn sy'n gweithio â llaw sydd ar gael mewn storfa i gael eu darparu o fewn 21 diwrnod |
| Yr amser a gymer i ddarparu cadair olwyn bŵeredig neu offer arbenigol sydd wedi ei harchebu gan y gwneuthurwr ar ôl derbyn ffurflen gyfeirio | Mesur yr amser rhwng derbyn ffurflen gyfeirio wedi ei chwblhau'n gywir a darparu cadair olwyn bŵeredig neu offer arbenigol | 90% o gadeiriau olwyn pŵeredig neu offer arbenigol i gael eu darparu yn unol â thelerau cyfeirio i ddarparu (cyfanswm o 26 weeks wythnos) |
| Trwsio ar amser (brys) | Mesur perffromiad ar gyfer trwsio achosion brys | 90% o ymatebion brys o fewn 24 awr i'r defnyddiwr gwasanaeth yn cysylltu â'r gwasanaeth |
| Trwsio ar amser (ddim yn frys) | Mesur perffromiad ar gyfer trwsio achosion nad ydynt yn rai brys | 90% o ymatebion nad ydynt yn rai brys o fewn 3 diwrnod gwaith i'r defnyddiwr gwasanaeth yn cysylltu â'r gwasanaeth |
| Casglu ar amser (ddim yn frys) | Mesur perfformiad ar gyfer casglu offer | 90% o ymweliadau i gasglu offer i'w cynnal o fewn 5 diwrnod gwaith i'r defnyddiwr gwasanaeth yn cysylltu â'r gwasanaeth |

8.3 Dylid nodi mai 18 wythnos yw’r targed gan y Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr ar gyfer darparu cadeiriau arbenigol/pŵeredig, tra ei fod yn 26 wythnos yng Nghymru.

8.4 Fe nododd GYCS gogledd Cymru eu bod wedi cyrraedd eu targedau ar gyfer darpariaeth i blant ers 3 blynedd, sef bod 97-100% o’r cadeiriau yn cael eu darparu o fewn y targedau amser a nodir uchod.

8.5 Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Oedolion yn cydymffurfio 81% yn erbyn y targed o 26 wythnos, ac mae disgwyl iddo weithio'n ôl i 90% erbyn ail chwarter 2019. Roedd y cwymp yn y perfformiad oherwydd swyddi gwag, salwch a mwy o alw, a arweiniodd at rywfaint o gynnydd mewn adnoddau staff gan PGIAC i gefnogi'r gweithrediadau.

8.6 <u>Cwynion –</u>

8.7 1 cwyn swyddogol y flwyddyn sydd wedi ei chyflwyno gan drigolion Gwynedd i GYCS rhwng 2015 a 2018.

8.8 Mae gan GYCS brosesau cadarn yn eu lle er mwyn cofnodi cwynion, ac mae’r camau canlynol wedi eu cymryd er mwyn ymateb i’r cwynion hynny:

- Adolygiad parhaus o holl gynlluniau gofal clinigol cleifion unigol i ddatblygu pecynnau gofal pwrpasol.
- Cyfathrebiad uniongyrchol parhaus gyda Defnyddwyr Gwasanaeth unigol a'u teulu/gofalwyr i wrando ac ymgysylltu, i ddatblygu gwelliannau i hyrwyddo urddas, parch ac annibyniaeth.
- Dyrannu clinigwr cyswllt canolog i gynnal parhad gofal i gleifion.
- Gweithredu system Canolfan Gyswllt Telegyfathrebu ym mis Chwefror 2019.
- Gwybodaeth am Siwrne Cyfnodau o Ofal, a roddir i'r Cleientiaid Gwasanaeth i wella'r dealltwriaeth o'r broses a sefydlu disgwyliadau clir o ddarpariaeth y gwasanaeth.
- Amseroedd Aros am Asesiad: Bydd y buddsoddiad a dderbyniwyd gan PGIAC i gynyddu staff yn galluogi i nifer uwch o asesiadau gael eu gwneud y flwyddyn, a fydd yn golygu llai o amser disgwyl yn gyffredinol.
- Adolygiad o offer ar gontract. Trafodaeth drwy Gymru Gyfan i adolygu'r offer a gyflwynwyd, i weld a ydyw'n cwrdd ag anghenion y gwasanaeth.
- Ail farn ynghyd â'r tîm yng Nghaerdydd

8.9 Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru wedi cofnodi 3 cwyn gan drigolion Gwynedd ers 2013, gydag un o’r rhain yn unig yn cael ei gyflwyno fel cwyn ffurfiol. Roedd honno yn gwyn ynghylch oedi i ddarparu cadair olwyn bŵeredig.

8.10 Os yw’r unigolyn yn dal yn anhapus gyda’r gwasanaeth neu’r ddarpariaeth sy’n cael ei gynnig gan y GYCS yna mae 2 gam dilynol y gellir eu dilyn:

8.10.1 Mae'r broses o gyflenwi cadair olwyn lle nad yw ungiolyn yn ystyried bod y gadair olwyn a ddarparwyd yn cwrdd â'i anghenion yn digwydd drwy PGIAC drwy Gais Cyllido Cleifion Unigol (IPFR). Mae panel a

sefydlwyd gan PGIAC yn ystyried y dystiolaeth ar sail y wybodaeth a ddarparwyd ar asesiadau clinigol.

8.10.2 Mae'r Gwasanaeth Ystum a Symudedd yn BIPBC hefyd yn cynnig ail farn gyda'r gwasanaeth sydd â'i ganolfan yng Nghaerdydd, a sefydlwyd y trefniant ffurfiol hwn yn 2018.

8.11 Mae'r ffigurau o gwynion 'swyddogol' am y ddarpariaeth yn isel – 1 y flwyddyn gan drigolion o Wynedd yn ystod y 3 mlynedd ddiwethaf, ond mae'r dystiolaeth o gwynion 'anffurfiol' sydd wedi eu casglu yn sgil yr ymchwiliad hwn yn creu darlun tra gwahanol.

8.12 Wrth i ni gynnal yr ymchwiliad hwn mae GYCS gogledd Cymru wedi ymateb yn adeiladol i drafodaethau i chwilio am gyfleoedd i wella'r gwasanaeth er lles y defnyddiwr, a chredwn yn dylid adeiladu ar yr ysbryd hwn o gydweithio rhwng GYCS a Chyngor Gwynedd i'r dyfodol.

8.13 <u>Sut fydd defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn gwybod os ydi'r gwasanaeth a ddarperir gan GYCS yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig?</u>

8.14 Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) yw'r sefydliad sy'n monitro perfformiad y GYCS ar draws Cymru, ac fel y nodwyd uchod mae'r 3 canolfan yn anfon adroddiadau misol iddynt ar eu DPA.

8.15 Yn atebol i'r Bwrdd, ac yn eu cynghori, y mae'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd Cymru Gyfan.

8.16 Diben y Bwrdd Partneriaeth yw:

- monitro darpariaeth y gwasanaeth yn erbyn y dangosyddion perfformiad ac ansawdd allweddol, er mwyn rhoi sicrwydd i'r cydbwyllgor fod y gwasanaeth yn cyflawni yn unol â manyleb gwasanaeth Cymru gyfan.
- i adolygu ac adnewyddu'r dangosyddion bob blwyddyn
- rhoi cyngor i'r Cydbwyllgor ar y strategaeth gomisiynu ar gyfer gwasanaethau ystum corff a symudedd, gan gynnwys nodi a chefnogi cyfleoedd ar gyfer ymgorffori cyd-gynhyrchu fel un o egwyddorion craidd y strategaeth gomisiynu

8.17 Mae cylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth fel a ganlyn:

- Cynghori'r cydbwyllgor ynghylch y safonau ansawdd a'r dangosyddion perfformiad allweddol
- Adolygu perfformiad yn erbyn y dangosyddion ansawdd a'r dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt, ac adrodd i fyrddau iechyd lleol drwy'r cydbwyllgor
- Diwygio, fel y gwêl y Bwrdd yn briodol, natur a lefelau targed y dangosyddion ansawdd a pherfformiad allweddol, a chynghori'r Cydbwyllgor ar unrhyw newidiadau a gynigir
- Rhoi cyngor i'r Cydbwyllgor ar gwmpas a meini prawf cymhwysedd y gwasanaeth ystum corff a symudedd

- Rhoi cyngor i'r Cydbwyllgor ar y fanyleb ar gyfer y gwasanaeth ystum corff a symudedd
- Darparu fforwm ar gyfer cyfathrebu a thrafod rhwng darparwyr y gwasanaeth a'i randdeiliaid
- Hyrwyddo dealltwriaeth rhwng y gwasanaeth ystum corff a symudedd a'i randdeiliaid
- Cefnogi darpariaeth gwasanaeth ystum corff a Symudedd ymatebol ac o ansawdd uchel yng Nghymru o fewn paramedrau cyllid presennol GIG Cymru.

8.18 Er ceisio, nid oedd yn bosib derbyn gwybodaeth am gofnodion neu adroddiadau y mae'r Bwrdd Partneriaeth yn eu cyhoeddi.

8.19 Mae'r PGIAC yn cyhoeddi adroddiadau perfformiad blynyddol ar holl ystod eu gwaith (un elfen yn unig yw monitro gwaith y GYCS) ac mae'r rhain yn ddogfennau cyhoeddus i'w gweld ar eu gwefan.

8.20 Fe gyhoeddodd y PGIAC Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18, ac ynddo maent yn nodi:

> "Cyflawni RTT 26 wythnos ar gyfer Cadeiriadu Olwyn yng ngwasanaeth De Cymru yn dilyn buddsoddiad.
>
> Wedi comisiynu gwasanaeth Prosthetig tecach a mwy cynaliadwy ar gyfer De-Orllewin Cymru."

8.21 Mae lle i holi felly a oes cynlluniau cyfatebol ar gyfer gostwng yr amser aros ar gyfer gweddill poblogaeth Cymru?

8.22 Pan ddaw hi i ddarpariaeth cadeiriau olwyn ac offer arbenigol, mae Adran 6.1 o'r polisi CP59 yn datgan - 'Bydd PGIAC yn cynnal adolygiadau perfformiad ac ansawdd yn flynyddol.'

8.23 Er holi, yn anffodus nid oes cofnod ar gael o unrhyw adolygiadau perfformiad blynyddol o wasanaeth GYCS.

8.24 Crynhoi –

8.25 Mae canfod gwybodaeth gyhoeddus am berfformiad y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd drwy Gymru yn broblemus. Mae angen ei gwneud mor glir a syml â phosib i'r defnyddiwr gwasanaeth a'r cyhoedd sut y gellir canfod gwybodaeth o'r fath.

8.26 Argymhellion Perthnasol

8.27 4.3.1, 4.3.2, 4.3.3.

## 9 Cyfleoedd i ddatblygu neu wella'r gwasanaeth i'r dyfodol

9.1 Mae Adrannau 7 ac 8 o'r adroddiad hwn wedi edrych ar ddau gwestiwn cyntaf y briff ar gyfer yr ymchwiliad. Yn dilyn derbyn tystiolaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, Awdurdodau Lleol, GYCS, PGIAC ac eraill, ac ystyried a oes prosesau yn eu lle i gyfarch unrhyw anfodlonrwydd, rydym yn symud ymlaen i ystyried y trydydd cwestiwn – 'Os oes angen, sut mae modd gwella'r gwasanaeth i'r dyfodol?'

9.2 Byddai'n hynod anarferol pe na bai unrhyw le i wella ar unrhyw wasanaeth sy'n cael ei gynnig gan y Gwasanaeth Iechyd neu unrhyw un o'i bartneriaid. Mae cynnal yr ymchwiliad craffu hwn wedi cynnig cyfle i sefydliadau ddod at ei gilydd i ystyried o'r newydd a yw'r ddarpariaeth bresennol y gorau y gall fod. Drwy gyd-drafod mae cyfleoedd wedi codi i ystyried cyfleoedd newydd ar gyfer y dyfodol.

9.3 Dyma'r prif faterion a godwyd:

9.4 Mae'r GYCS yn nodi bod nifer o'r rhesymau nad oedd targedau wedi eu cyrraedd dros y blynyddoedd diwethaf (salwch staff, cynnydd mewn galw) bellach ar y ffordd i gael eu datrys. Y mae hefyd yn galonogol bod system ffôn newydd wedi ei gosod yn y ganolfan yn Wrecsam, felly dylid cadw golwg i weld os fydd hyn yn gwella'r gwasanaeth i'r unigolyn ac i bartneriaid.

9.5 Awgrymir camau gweithredu ar hyn yn Argymhellion 4.3.1 a 4.3.3.

9.6 Yn ogystal â darparu gofal feddygol glinigol i'r unigolyn sy'n ddibynnol ar gadair, mae GYCS hefyd yn cydweithio â nifer o asiantaethau eraill er mwyn cynnig cefnogaeth ehangach fydd yn cyfoethogi llesiant yr unigolyn. Mae cynlluniau yn eu lle ar hyn o bryd rhwng GYCS gogledd Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru, Coleg Cambria, Prifysgol Glyndwr a'r Adran Gwaith a Phensiynau, ac ymhelaethwyd ar y gwaith gyda Chwaraeon Anabledd Cymru yn 7.96. Gan fod y dystiolaeth sydd gennym hyd yma yn dangos bod y gwaith partneriaethu hwn yn arwain at wella safon bywyd y defnyddiwr gwasanaeth yna fe ddylid ymchwilio i fwy o gyfleoedd ac i ymestyn y cyfleoedd presennol.

9.7 Awgrymir cam gweithredu ar hyn yn Argymhelliad 4.3.9.

9.8 Mae GYCS gogledd Cymru yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil sy'n edrych ar fesurau deilliant ar gyfer Symudedd ac Ansawdd Bywyd. Mae'r prosiect yn datblygu mesur deilliant a adroddir gan gleifion am ansawdd bywyd symudedd. Mae hwn yn brosiect tair blynedd y mae'r gwasanaeth yn gobeithio fydd yn darparu dangosydd allweddol ar gyfer deilliant yr offer a'r gwasanaeth y mae'r cleient wedi'i brofi.

9.9 Awgrymir cam gweithredu ar hyn yn Argymhelliad 4.3.9.

9.10 Bu Cyngor Gwynedd a swyddogion GYCS yn trafod yr opsiynau ar gyfer cydweithio ar draws asiantaethau er mwyn gwella a chyflymu'r gwasanaeth i'r defnyddiwr gwasanaeth. Un opsiwn a drafodwyd oedd adolygu rôl meddygon

teulu yn broses o gyflwyno cyfeiriad at y gwasanaeth. Roedd ymateb GYCS fel a ganlyn:

> ‘Mae'r gwasanaeth yn cymryd balchder yn ei ddull o hyrwyddo gweithio ar y cyd â budd-ddeiliaid y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i greu perthynas gadarnhaol gyda'i holl fudd-ddeiliaid, a bydd y gwasanaeth yn bachu ar unrhyw gyfle sydd ar gael i wella hyn. Bydd y gwasanaeth yn cynyddu ymgysylltiad gydag Arweinwyr Clwstwr Meddygon Teulu i adnabod meysydd i'w gwella a fydd yn elwa o ddatblygiad pellach.’

9.11 Awgrymir camau gweithredu ar hyn yn Argymhellion 4.3.4, 4.3.5, a 4.3.8.

9.12 Mae’r ffurflen bapur bresennol ar gyfer cyfeirio unigolyn i gael ei asesu wedi derbyn sawl beirniadaeth –

9.12.1 Oni fyddai system electronig yn cyflymu’r broses?

9.12.2 Angen cydnabod derbyn y ffurflen o fewn 5 diwrnod (yn unol â’r targed KPI) a rhoi gwybod o fewn yr amser hwnnw hefyd i’r unigolyn ac unrhyw staff proffesiynol sy’n helpu’r unigolion gyda’r ffurflen gais os oes gwybodaeth ar goll neu fod angen gwybodaeth ychwanegol

9.12.3 Oes posib i staff proffesiynol mewn sefydliadau y tu allan i GYCS gael eu hyfforddi, neu fan lleiaf i dderbyn gwybodaeth a chyfarwyddwyd er mwyn cwblhau’r ffurflen cais mor gyflawn a chywir â phosib.

9.12.4 Gan bod hon yn ffurflen sy’n cael ei defnyddio’n genedlaethol gan y 3 canolfan, byddai angen cytundeb ar lefel genedlaethol i’w haddasu. Credwn, er hynny, y byddai budd mawr o wneud hynny.

9.13 Awgrymir cam gweithredu ar hyn yn Argymhelliad 4.3.4.

9.14 Mae GYCS a Chyngor Gwynedd wedi cytuno i gydweithio er mwyn gwella’r llwybrau cyfathrebu rhwng y ddau sefydliad, ac i geisio cynnal ymweliadau ar y cyd ag unigolion er mwyn eu hasesu ar gyfer cadeiriau olwyn.

9.15 Awgrymir camau gweithredu ar hyn yn Argymhellion 4.3.5 a 4.3.6.

9.16 Mae un ffactor sylweddol sy’n dylanwadu ar gyflymder y gwasanaeth y mae GYCS yn ei gynnig, yn enwedig er mwyn trwsio offer ar frys, sef natur ddaearyddol yr ardal y maent yn ei wasanaethu a’r amser a phellter teithio. Gall un ymweliad â chartref unigolyn i drwsio cadair gymryd bron i ddiwrnod cyfan, ac os nad yw’n bosib trwsio yn y fan a’r lle (dim ond 80% sy’n cael eu trwsio ar yr ‘Ymweliad Cyntaf’) yna mae angen trefnu ail ymweliad. Mae angen felly i ystyried oes camau y gellir eu cymryd i leihau’r angen i drwsio offer yn y lle cyntaf, neu i adnabod mor fuan a phosib unrhyw broblemau eraill a allai ddatblygu gan yr unigolyn.

9.17 Awgrymir camau gweithredu ar hyn yn Argymhellion 4.3.10, 4.3.11 a 4.3.12.

9.18 Mae GYCS eisoes wedi cytuno i ymchwilio i rai opsiynau er mwyn lleihau amseroedd aros am gadair, neu i drwsio offer. Dylid pwysleisio nad yw'r rhain yn cymryd lle unrhyw asesiadau fwy dwys y dylid eu cynnal:

9.18.1 Trefniadau cynnal a chadw rheolaidd ar offer

9.18.2 Hyfforddiant i'r unigolyn, ac unrhyw ofalwr neu weithiwr proffesiynol arall sy'n ei g/chefnogi ar sut i ddefnyddio ac edrych ar ôl yr offer

9.18.3 Hyfforddiant i'r unigolyn, ac unrhyw ofalwr neu weithiwr proffesiynol arall sy'n ei g/chefnogi ar adnabod arwyddion o 'pressure sores'

9.18.4 Posibilrwydd o ddefnyddio technoleg, ee. Skype, er mwyn cynnal asesiadau elfennol o broblemau – cyn i staff GYCS/Ross Care ddod allan i drwsio offer neu asesu iechyd yr unigolyn.

9.19 Awgrymir camau gweithredu ar hyn yn Argymhellion 4.3.10, 4.3.11 a 4.3.12.

9.20 Mae gwasanaeth GYCS Gogledd Cymru wedi bod yn cynnal hyfforddiant gyda myfyrwyr Therapyddion Galwedigaethol ym Mhrifysgol Glyndŵr ers dros dair blynedd. Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth briodol i Therapyddion Galwedigaethol newydd sydd wedi cymhwyso'n llwyddiannus wrth gyfeirio i'r gwasanaeth.

Mae hwn yn ddatblygiad i'w ganmol ac felly dylid ymchwilio i weld os oes posib defnyddio'r un model pan yn hyfforddi therapyddion newydd mewn ardaloedd eraill o Gymru.

9.21 Awgrymir cam gweithredu ar hyn yn Argymhelliad 4.3.9.

9.22 Un darn yn unig o'r jig-so mawr ydi darparu'r offer cywir i'r unigolyn, ac mae angen i bawb sy'n cynnig cymorth a gwasanaeth i'r unigolyn hwnnw gydweithio os am wireddu nod GYCS o "amlhau gallu i'r eithaf a lleihau anabledd." Dylid chwilio am, a datblygu, unrhyw gyfleon fydd yn helpu'r unigolyn i fyw y bywyd y mae o neu hi'n dymuno ei fyw.

## 10 Cyfranwyr

Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd – Canolfan Wrecsam

Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd – Canolfan Caerdydd

Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Awdurdodau Lleol Gwynedd, Môn, Conwy, Dinbych a Wrecsam

Defnyddwyr gwasanaeth (unigolion)

Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cyngor Gwynedd

**Atodiad 2**

## Briff Ymchwiliad Craffu - Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd

| | |
|---|---|
| A | Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried fel eitem craffu, a pham?<br><br>Yn dilyn cyflwyno Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Peter Read i gyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2017, fe benderfynodd y Cyngor:<br><br>"Bod y Cyngor yn cyfeirio'r cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i'w ystyried ar gyfer y rhaglen craffu."<br><br>Yn unol â phrosesau craffu'r Cyngor, cyfeiriwyd y mater at y Pwyllgor Craffu Gofal a benderfynodd mai cynnal Ymchwiliad Craffu fyddai'n bodloni'r cynnig orau. Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 30 Ionawr 2018 cytunwyd i ychwanegu addasrwydd trefniadau darpariaeth prosthetig at y briff yn ogystal. |
| | Cefndir<br><br>Yng Nghymru, mae darpariaeth prosthetig a chadeiriau olwyn i'r sawl sydd eu hangen yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd – GYCS (Posture and Mobility Service). Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cael ei adnabod o dan yr acronym ALAC neu ALAS.<br><br>Mae GYCS yn sefydliad cenedlaethol sy'n cael ei gomisiynu gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) ac mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy gydweithrediad y 3 Bwrdd Iechyd sydd hefyd yn gweithio'n agos gydag is-gontracwyr. Mae 3 canolfan gan y Gwasanaeth – Wrecsam, Caerdydd ac Abertawe – ac mae'r ddarpariaeth i drigolion Gwynedd fel arfer yn cael ei gynnig drwy'r ganolfan yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Nod GYCS yw darparu gwasanaeth teg a chyson sy'n cynnig cefnogaeth i bobl i adsefydlu yn eu cymunedau.<br><br>Cafwyd cysylltiad gan rai aelodau o'r cyhoedd, sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl a Phencampwr Anabledd Cyngor Gwynedd i gwyno am rai agweddau o'r gwasanaeth. |
| B | Nod yr Ymchwiliad<br><br>Y prif faterion dan ystyriaeth fydd<br><br>- Nifer a difrifoldeb y cwynion am y gwasanaeth cadeiriau olwyn a ddarperir trwy GYCS.<br>- Beth oedd cynnwys ac amserlen ymateb GYCS i'r cwynion?<br>- Faint o dystiolaeth sydd ar fodlonrwydd/anfodlonrwydd defnyddwyr gyda'r gwasanaeth? A oes themâu yn y dystiolaeth/wybodaeth yma?<br><br>- A ellir tystiolaethu bod yr unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog yn y broses o asesu a darparu cyfarpar addas ac yn cael eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw?<br>- Ydi'r broses yn 'fit for purpose'? |

| | |
|---|---|
| C | <u>Cyd-destun</u><br><br>- Ystyried gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 o safbwynt rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog yn y broses asesu a darparu cyfarpar addas.<br>- Ystyried gofynion o safbwynt Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Iechyd a threfniadau caffael a chytundebu.<br>- Ystyried Astudiaethau Achos (y da a'r dim cystal) o Wynedd ac o ardaloedd eraill yng ngogledd Cymru. |
| D | <u>Casglu Tystiolaeth</u><br><br>- Defnyddwyr y Gwasanaeth – bydd angen ystyried yn ofalus sut y gellid cael adborth defnyddwyr gwasanaeth oherwydd materion cyfrinachedd a diogelu data.<br><br>- Trydydd Sector (cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth) – holi Mantell Gwynedd am fudiadau perthnasol<br><br>- <u>Cyngor Gwynedd</u><br>    o Mari Wynne Jones, Uwch Reolwr Galluogi<br>    o Ceryl Davies, Uwch Reolwr Anableddau Dysgu<br>    o Arweinwyr Ardal<br><br>- <u>Bwrdd Iechyd</u><br>    o Nyrsys Meinwe<br>    o Arbenigwyr Meddygol<br><br>- Llywodraeth Cymru – Swyddog Cytundebu a Monitro<br><br>- GYCS Gogledd Cymru – Prif Swyddog<br>- GYCS Caerdydd – Prif Swyddog<br>- GYCS Abertawe – Prif Swyddog |
| DD | <u>Dadansoddiad</u><br><br>- Pwyso a mesur tystiolaeth a gasglwyd gan y rhai a gyfwelwyd |
| CH | <u>Arfer Da a Gwersi i'w Dysgu</u><br><br>- Ystyried sut mae gwasanaeth tebyg yn cael ei gynnal mewn ardaloedd eraill.<br>- Nodi rhwystrau ac arfer da |
| E | <u>Llunio'r Adroddiad</u><br><br>- Nodi a thystiolaethu'r prif ganfyddiadau<br>- Nodi argymhellion ar gyfer allbynnau tymor byr<br>- Nodi argymhellion ac allbynnau tymor hwy<br>- Trafod a chytuno'r Adroddiad drafft gydag arweinwyr y gwaith o fewn Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | - Cyflwyno'r Adroddiad Terfynol drafft i'r Pwyllgor Craffu am sylwadau a chadarnhad<br>- Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol |
| F | <u>Cynllun Gweithredu</u><br><br>- Llunio argymhellion i ystyriaeth y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd a gofyn am ymateb i'r argymhellion |
| FF | <u>Tracio Cynnydd</u><br><br>- Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymchwiliad, os oes argymhellion y gellid diweddaru'r craffwyr arnynt, fe wneir hyn drwy adroddiad cynnydd anffurfiol. |
| G | <u>Amserlen</u> - |